# BETH I'W WNEUD OS CREDWCH FOD PLENTYN NEU OEDOLYN AGORED I NIWED MEWN PERYGL

Os credwch fod plentyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, cysylltwch ag Arweinydd Diogelu Theatr y Sherman Julia Barry ar unwaith. Os na fydd Julia Barry ar gael, cysylltwch â'r Dirprwy Arweinydd Diogelu, Sally Shepherd – Pennaeth Cyllid a Gweinyddu.

Ni ddylech byth oedi cyn cymryd camau brys i amddiffyn plentyn.

Mae'n fwy tebygol y byddwch yn poeni neu'n pryderu am les plentyn yn hytrach na bod angen i chi weithredu ar unwaith.

Os byddwch yn pryderu am les plentyn peidiwch â'i gadw'n gyfrinach. Siaradwch â'r Arweinydd Diogelu ar unwaith er mwyn iddo/iddi allu ystyried yr holl ffeithiau sydd ar gael cyn penderfynu ar gamau gweithredu. Os bydd y pryderon yn parhau, bydd yr Arweinydd Diogelu yn atgyfeirio'r mater at dîm derbyn ac asesu gwasanaethau plant Caerdydd, gan ddweud ei fod am roi gwybod am blentyn mewn perygl.

Mewn rhai achosion, er hwylustod, gall fod yn haws i chi sôn wrth eich rheolwr llinell am eich pryderon a bydd yn uwchgyfeirio'r mater i'r Arweinydd Diogelu ar eich rhan.

Mae'n bosibl na fydd eich pryderon yn ymddangos yn ddigon ar eu pen eu hun i gyfiawnhau ymchwilio i'r sefyllfa – ond gallant helpu i greu darlun, ochr yn ochr â phryderon eraill o ffynonellau eraill, sy'n awgrymu y gallai plentyn fod yn dioddef niwed.

Efallai y bydd yr Arweinydd Diogelu yn gofyn i chi gwblhau ffurflen achos, ac i ysgrifennu geiriau'r person ifanc neu'r person a roddodd wybod am yr achos i chi. Bydd eich cyfrifoldeb chi am yr achos yn DOD I BEN ar ôl hynny. Yr Arweinydd Diogelu fydd yn gyfrifol am yr achos o hynny ymlaen. Dim ond os bydd yr achos yn mynd i'r llys, neu os bydd yr heddlu angen datganiadau gan dystion, y byddwch yn ymwneud â'r achos eto – ac yn yr achosion hynny, ni allwn warantu na fydd yn rhaid i ni eich enwi.

Os ydych yn gweithio mewn ysgol, clwb ieuenctid, neu safle y tu allan i'r Sherman, ond fel un o gyflogeion Theatr y Sherman sy'n gweithio gyda phobl ifanc, cofiwch BARHAU i ddilyn y canllawiau/gweithdrefnau uchod – cysylltwch ag Arweinydd Diogelu y Sherman, sy'n gyfrifol am roi gwybod i Arweinydd Diogelu yr ysgol (neu'r ganolfan). Ar ôl i chi roi gwybod i Arweinydd Diogelu y Sherman, daw eich cyfrifoldeb, fel y nodir uchod, i ben.

**Canllawiau ar gyfer Rhoi Gwybod am Bryder**

Cofiwch ysgrifennu a chofnodi cymaint o wybodaeth ag y gallwch. Gallai hyn gynnwys:

- Y rhesymau am eich pryderon
- Cyfeiriad gartref ac oedran neu ddyddiad geni
- Enw, cyfeiriad, ac oedran neu ddyddiad geni aelodau o'r teulu ynghyd ag enwau eraill a ddefnyddir
- Enwau gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r teulu megis meddyg, ymwelydd iechyd, ysgolion
- Unrhyw wybodaeth am ddiogelwch pobl a all ymweld â'r teulu
  (Mae'n rhaid i'r staff ST lenwi ffurflen achos)

Dylid anfon y wybodaeth hon at yr Arweinydd Diogelu.

Pwy ddylwn i ddweud wrthyn nhw am y pryderon?

Bydd yr Arweinydd Diogelu yn nodi eich pryderon i'r Swyddog ar Ddyletswydd yn:

Man Mynediad i Blant (ymholiadau/atgyfeiriadau newydd)
029 2053 6490 – Llun-Gwener 8.30am–5pm

Tîm Derbyn ac Asesu (achosion agored)
029 2053 6400 – Llun-Gwener 8.30am–5pm

Tîm ar Ddyletswydd mewn Argyfwng
029 2044 8570 – tu allan i oriau gwaith

Mewn argyfwng ac os na fydd unrhyw un o'r uchod ar gael ac rydych yn pryderu bod person ifanc mewn perygl uniongyrchol o ddioddef niwed pellach ac nid yw'r Arweinydd Diogelu ar gael = FFONIWCH 101 (yr heddlu).

**A allaf fod yn ddienw?**

Efallai eich bod yn aelod o staff sy'n gweithio i un o'r asiantaethau dan sylw neu'n ffrind, cymydog neu berthynas. Ni all staff fod yn ddienw, ond byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu eich hunaniaeth p'un a fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny ai peidio. Weithiau bydd y wybodaeth a roddwch i ni yn datgelu pwy ydych chi. A chan fod yn rhaid i ni fynd i'r llys weithiau, ni allwn warantu na fydd rhaid i ni ddatgelu pwy ydych chi.

**Cyngor Pellach**

Os byddwch yn pryderu am ymddygiad unrhyw oedolyn gan gynnwys y rhai sy'n gofalu am blant:

- peidiwch â diystyru eich pryderon
- peidiwch â chodi'r mater gyda'r person rydych yn pryderu yn ei gylch
- trafodwch eich pryderon gyda'ch rheolwr os ydych yn gweithio gyda phlant. Os credwch fod hyn yn amhriodol neu os nad ydych yn fodlon â'r ymateb, cysylltwch â'r Man Mynediad i Blant drwy ffonio 029 2053 6490 neu'r heddlu
- mae'n bwysig iawn peidio ag anwybyddu na diystyru eich amheuon

Dyddiad diweddaru:  12.06.2023
Wedi'i fonitro a'i adolygu:  11.06.2015 (Pwyllgor Adnoddau Dynol a llywodraethu)
Cymeradwywyd gan y Bwrdd: 12.06.2023
Anfonwyd at Staff a Gwirfoddolwyr:
Rhoddwyd ar wefan Theatr Sherman: